Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# CYFLWR Y SECTOR

## Adeiladu gwasanaethau arbenigol cynaliadwy yng Nghymru

## Ynghylch Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol). Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw dileu cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini'n wasanaethau sydd wedi'u llywio gan anghenion, sy'n ymateb i rywedd ac sy'n holistig.  Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghorol, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwsanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol.  Rydym yn treialu prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (*SEEdS*), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i lywio gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn yn cyflenwi Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU sy'n cynnwys safonau trais rhywiol a safonau gwasanaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Cymru a gyflenwir gan asiantaethau sy'n bartneriaid.

Mae ein haelodaeth yn cynnwys 22 o wasanaethau arbenigol y trydydd sector sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac mae gennym gytundebau partneriaethol cenedlaethol â nhw er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith.

Fel y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch yn ddiffuant i'r holl wasanaethau arbenigol a gyfrannodd at adroddiad *Cyflwr y Sector.*

**Ysgrifennwyd gan:**

*Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil*

**Cyhoeddwyd gan:**

*Cymorth i Ferched Cymru*
Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE
Cyfeiriwch at yr adroddiad hwn os gwelwch yn dda fel: "*Cyflwr y Sector: Adeiladu gwasanaethau arbenigol cynaliadwy yng Nghymru,* 2018 (Caerdydd: Cymorth i Ferched Cymru, 2018)"
Am fwy o wybodaeth ynghylch Cymorth i Ferched Cymru, ewch os gwelwch yn dda at www.welshwomensaid.org.uk
© Welsh Women's Aid 2018

## Tudalen Gynnwys


1. Rhagarweiniad Tudalen 4

Data'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru Tudalen 6

Beth yw gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol? Tudalen 8

2. Y Tirlun Cyllido Tudalen 10

Cyllido Cynaliawdwy: Y Cyd-destun Tudalen 10

Astudiaeth Achos: Adfer, Hysbysu, Diogelu, Grymuso, Caerdydd (*Rise, Cardiff*) Tudalen 13

3. Pryderon ynghylch y Dyfodol Tudalen 14
4. Tirlun Gwasanaethau Arbenigol Tudalen 16

Cymorth o fewn Lloches Tudalen 16

Cymorth o fewn y Gymuned Tudalen 16

Gwasanaethau Trais Rhywiol Tudalen 17

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Tudalen 17

5. Casgliad Tudalen 20
6. Argymhellion Tudalen 21



**Cynhyrchir yr adroddiad hwn gyda diolch i'n haelodau gwasanaeth arbenigol:**

## 1. Rhagarweiniad

Yn 2018, dathlodd Cymorth i Ferched Cymru ei 40fed blwyddyn fel mudiad sy'n dileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Bydd cam-drin domestig, trais rhywiol, puteinio, priodas dan orfod, enwaedu benywod, trais ar sail 'anrhydedd', stelcian ac aflonyddu rhywiol yn effeithio ar un ym mhob tair menyw ar ryw adeg yn ystod eu bywyd[1]. Nid yw'r mathau hyn o gam-drin yn ddigwyddiadau gwahanedig, yn hytrach, ffurfiant batrwm o ymddygiad sy'n torri hawliau dynol, yn cyfyngu ar allu i gyfranogi yn y gymdeithas, ac sy'n niweidio iechyd a lles. Mae trais yn erbyn menywod a merched wedi'i wreiddio mewn anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, oed, dosbarth cymdeithasol, rhywioldeb ac anabledd ac sy'n effeithio ar brofiadau o gam-drin ac ar lwybrau tuag at dderbyn cymorth.

Mae rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru yn darparu cymorth trawsnewid bywyd, amddiffyniad a gwaith ataliol hanfodol o fewn cymunedau lleol ar draws Cymru. Datblygwyd cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd ganddynt i gefnogi goroeswyr cam-drin, a hynny wed'i lywio gan fframwaith o gydraddoldeb a hawliau dynol. Maen nhw'n gosod anghenion goroeswyr yn ganolog i'r ddarpariaeth a'r gwaith partneriaethol, tra'n anelu hefyd at arddangos eu dylanwad a'u gwerth am arian, o wybod bod gwasananethau'n bodoli erbyn hyn mewn amgylchedd fasnachol gystadleuol.

Sefydlwyd ein gwasanaethau arbenigol gan ac ar gyfer menywod, ac mae rhai yn parhau i gael eu cyflenwi gan ac ar gyfer menywod, a'r rheini'n aml yn fenywod a effeithiwyd yn bersonol gan gam-drin. Mae profiadau ac anghenion goroeswyr wrth wraidd ein mudiad ac yn ganolog i'n gwaith yn genedlaethol ac yn lleol. Mae nifer o wasanaethau arbenigol yng Nghymru yn awr hefyd yn cyflenwi cymorth a gwasananaethau penodol i ateb anghenion dioddefwyr gwrywaidd, ac mae rhai hefyd yn cyflenwi ymyriadau i newid ymddygiad troseddwyr, tra'n parhau i osod diogelwch goroeswyr yn ganolog i'w gwaith. Yn gyffredin i wasanaethau'n holl aeldau mae'r gallu i sefyll ochr yn ochr â goroeswyr i ateb eu gofynion o ran cymorth, eu helpu i gael mynediad i'w hawliau a'u galluogi i wella o gam-drin. Mae gwasanaethau arbenigol yn darparu llais i'r rheini sy'n wynbeu anffafriaeth ac anfanteision lu ac sydd felly'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau neu gael cymorth o fewn cymunedau lleol.

Llywiwyd ein hadroddiad blynyddol ar "gyflwr y sector" gan brofiadau gwasanaethau arbenigol yng Nghymru sy'n aedloadau o Cymorth i Ferched Cymru o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r hinsawdd bresennol yn arbennig o heriol i wasanaethau arbenigol. Nid yn unig mae menywod, a'r gwasanaethau a ddefnyddir yn bennaf gan fenywod a phlant, yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan fesurau cyni a thoriadau cyllid y sector cyhoeddus,[2] ond mae buddsoddiad elusennol yn y trydydd sector yng Nghymru gan ymddiriedolaethau a sefydliadau hefyd yn parhau i fod ar ei hôl hi i gymharu ag ardaloedd eraill yn y DU.[3]

Er i ni ymgyrchu'n llwyddiannus i sefydlu ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yng Nghymru wedi'u cyllido'n gynaliadwy, bu gweithredu hyn ar lawr gwlad yn broses araf. I gynorthwyo gyda datblygiad gwaith y Llywodraeth a chomisiynwyr i gyflawni'r ymrwymiad hwn, cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol gennym ym mis Medi 2017 a amlinellodd sut

[1] https://fra.europa.eu/en/publication/2014/violence-against-women-eu-wide-survey-main-results-report
[2] https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2018/12/WBG-Funding-Report-2.pdf
[3] Garfield Weston Foundation (2015) An insight into the future of charity funding in Wales https://garfieldweston.org/wp-content/uploads/2017/01/GWF-Insight-into-Future-of-Charity-Funding-in-Wales.pdf

y diffinnir gwasanaethau arbenigol, yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i unrhyw fodel ar gyfer buddsoddi'n gynaliadwy yn y sector, a'r lefel o adnoddau sy'n bwydo gwasanaethau arbenigol (yn rhanbarthol ac yn genedlaethol) wedi'u rhannu'n fathau o gronfeydd a mathau o wasanaeth.[4]

Llywiwyd yr adroddiad hwn ar gyflwr y sector yn 2018 gan adborth pellach wrth ein haelodau, a'n hysbysodd am gyflwr eu cyllido, cyd-destun eu darpariaeth o wasanaethau a'r heriau sy'n eu hwynebu, yn ogystal â'u nodau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ychwanegir at yr adroddiad hwn hefyd gan ddadansoddiad o'r data blynyddol a gyflwynwyd gan aelodau yn 2017-18. Hoffem ddiolch i'n haelodau a ymatebodd i arolygon a cheisiadau am ddata a gyfranogodd yn ein trafodaethau, gwerthfawrogwn fod hyn yn cymryd amser ac egni oddi wrth eu gwaith ar flaen y gad ond fe'i gwneir gyda'r awydd am weld newid systemau er mwyn gwella'r sefyllfa i oroeswyr ar draws Cymru.

Cylwynir yr adroddiad hwn i'n rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau arbenigol ac i'r goroeswyr sy'n ffurfio rhan o'n mudiad i greu newid a dileu trais a cham-drin, a hynny am byth.

[4] Roedd yr adroddiad hwn, a ddatblygwyd gan weithgor cenedlaethol, yn cynnwys adborth a chanfyddiadau o 33 o ymatebion (o 36 arolwg a ddosbarthwyd) sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 92%: Cymorth i Ferched Cymru (Medi 2017) **"**Adroddiad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i lywio datblygiad Model ar gyfer Cyllido Gwasanaethau Arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru yn Gynaliadwy"

**Data'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru – 2017/18**

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn broblem enfawr i iechyd cyhoeddus ac yn torri hawliau dynol: ***mae 1 ym mhob 3 menyw yn dioddef rhyw fath o drais a cham-drin yn ystod ei bywyd,***[5] yn arbennig trais gan bartner agos a thrais rhywiol.

Mae bwlch yn genedlaethol o ran coladu data am ba mor gyffredin mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Mae yna fwlch hefyd o ran data sy'n ymwneud â'r graddau y mae goroeswyr a throseddwyr yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, ni chafodd hyn ei goladu yn rhanbarthol nac yn genedlaethol.

Yr hyn a wyddom o'r data a ddaeth o ffynonellau'r sector cyhoeddus yw:

- Yn y flwyddyn yn diweddu ym Mawrth 2018, nododd Arolwg Troseddu Lloegr a Chymru fod amcangyfrif o 2.0 miliwn oedolyn wedi dioddef cam-drin domestig (a bod 1.3 miliwn ohonynt yn fenywod).[6]
- Yn ôl adroddiad Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Drais yn erbyn Menywod a Merched 2017-18, roedd 140 o erlyniadau am dreisio yng Nghymru, gyda chyfradd y dedfrydau yn 60.9%. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 563 o ddedfrydau am ymosodiadau rhywiol difrifol.[7]
- Cofnododd yr Heddlu yng Nghymru 36,529 achos yn ymwneud â cham-drin domestig yn ystod 2017-18.[8]

Mae'r gronfa ddata fwyaf o ddata a goladwyd yng Nghymru yn cynnwys data o ymatebion chwarterol a blynyddol aelodau Cymorth i Ferched Cymru.[9] Mae'r canlynol yn crynhoi'r galw am y gwasanaethau hyn yn ystod 2017-18.

- Cefnogwyd 12,166 o oroeswyr gan wasanaethau arbenigol yn ystod y flwyddyn.
- Methodd y gwasanaeth â chefnogi 431 o oroeswyr a atgyfeiriwyd at lochesau a hynny o ganlyniad i adnoddau a chapasiti (h.y. roedd y gwasanaeth yn llawn, nid oedd modd ateb eu hanghenion, roedd diffyg hygyrchedd i oroeswyr anabl, neu roedd prinder adnoddau i gefnogi menywod nad oeddent yn medru hawlio budd-daliadau).
- Ar ddiwedd mis Mawrth, roedd 292 o oroeswyr trais rhywiol (26% o atgyfeiriadau) ar restrau aros ar gyfer derbyn cymorth i fynd i'r afael â'u profiad(au) o drais rhywiol a cham-drin.
- Bu cynnydd bob blwyddyn o 14% yn y nifer o blant a gefnogir o fewn llochesau, ffigwr sy'n gyfwerth â 266 o blant a phobl ifanc mewn lloches bob chwarter.
- Mewn gwasanaethau cam-drin domestig, roedd tri ym mhob pedwar goroeswr wedi dioddef rheolaeth gymhellol gyda 74% o oroeswyr yn dioddef y math hwn o gam-drin.
- Nododd un ym mhob pedwar goroeswr a ddefnyddiodd wasanaethau cam-drin domestig iddynt ddioddef stelcain neu aflonyddu.
- Roedd 95% o oroeswyr yn teimlo'n fwy diogel wedi iddynt dderbyn cefnogaeth mewn lloches.
- Ymdriniodd Llinell Gymorth Byw Heb Ofn â 33,642 o gysylltiadau, cynnydd o 11% o'i gymharu â 2016/17.

---

[5] https://fra.europa.eu/en/publication/2014/violence-against-women-eu-wide-survey-main-results-report
[6] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2018
[7] https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/cps-vawg-report-2018.pdf
[8] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/appendixtablesfocusonviolentcrimeandsexualoffences
[9] Adroddaid Blynyddol Cymorth i Ferched Cymru (2018): Data o wasanaethau arbenigol yng Nghymru, 2017/18. Cerdydd: Cymorth i Ferched Cymru

Methodd **431** o oroeswyr â chael eu cefnogi mewn llochesau o ganlyniad i ddiffyg lle

Mae nifer y goroeswyr sy'n aros yn hwy na **6** mis mewn llochesau wedi dyblu mewn blwyddyn.

Cynyddodd atgyfeiriadau at gymorth o fewn y gymuned **32%** yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ar gyfartaledd, cefnogwyd **266** o blant â chymorth o fewn lloches bob chwarter.

Atgyfeiriwyd **1008** i'n haelodaeth o wasanethau trais rhywiol yn ystod 2017/18

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

### Beth yw Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?

Mae'r sector yn diffinio[10] gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru fel:

- Gwasanaethau a ddarperir yn annibynnol ar y wladwriaeth (h.y. y trydydd sector) y mae a wnelo eu prif ddyletswydd â chefnogi goroeswyr a/neu droseddwyr a/neu blant a phobl ifanc a effeithiwyd gan unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (h.y. treisio ac ymosodiadau rhywiol gan gynnwys cam-drin pant yn rhywiol, cam-drin domestig, aflonyddu rhywiol, priodas dan orfod, enwaedu benywod, camfanteisio'n rhywiol gan gynnwys trwy'r diwydiant rhyw, masnachu pobl a chaethwasiaeth cyfoes a thrais ar sail 'anrhydedd', fel y'i gelwir);
- Gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol gan gydnabod y continiwm o drais yn erbyn menywod a chan sicrhau bod ymyriadau a gwaith ataliol yn cysylltu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol â phatrymau ehangnach o anghydraddoldebau rhywiol ac eraill, gan gynnwys ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol, hunaniaeth rhywedd, oed, gallu, rhywioldeb, crefydd a chred;
- Gwasanaethau y llywiwyd eu dealltwriaeth a'u darpariaeth gan y dadansoddiad bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ganlyniad angydraddoldeb rhywiol ac yn achos a chanlyniad i anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, sy'n cydgysylltu â ffactorau megis ethnigrwydd, oed, dosbarth cymdeithasol, rhywioldeb ac anabledd i effeithio ar brofiadau o gam-drin ac ar lwybrau sy'n arwain at wella. Mae gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cydnabod bod y mathau hyn o drais yn gwbl ataliadwy, a'u bod yn digwydd yn anghymesur i fenywod a merched am eu bod yn fenywod a merched ac fel ffordd o gael rheolaeth gymdeithasol, sy'n cynnal a chreu perthnasoedd lle mae pŵer anghyfartal ac sydd hefyd yn achosi rhwystrau wrth geisio sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol i fenywod a merched;
- Gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n wahanaol i wasanaethau 'cymorth cyffredinol' yn yr ystyr bod gan y mudiadau/gwasanaethau fodel cyflawni gwasanaeth sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol a diwylliannol ac sy'n holistig, sy'n unol â fframweithiau safonau ansawdd y DU ar gyfer gwasanaethau o'r fath, ac sydd wedi'u rheoli gan ac ar gyfer y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Trwy wneud hyn mae'r gwasanaethau'n cynnig profiad ymrymuso cwbl unigryw i fenywod a phlant a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn arbennig, gan adlewyrchu'r grŵp clientiaid yn adeiladwaith staffio, rheoli a llywodraethu'r mudiadau hyn.

[10] Cymorth i Ferched Cymru (Medi 2017) “) “Adroddiad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i lywio datblygiad Model ar gyfer Cyllido Gwasanaethau Arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru yn Gynaliadwy”

Mae gwasanaethau arbenigol yng Nghymru hefyd yn argymell y dylai cyflenwi system o gyllido cynaliadwy gan gomisiynwyr a chylidwyr eraill gydnabod ac arddangos y diffiniad uchod, ac y dylai sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yng Nghymru wedi'u cymhwyso i ddarparu ymyriadau a chymorth o fewn y fframwaith craidd canlynol:

1. Bod gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cyflenwi o fewn fframweithiau sicrhau ansawdd ac achredu cydnabyddedig.
2. Bod gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol nid yn unig yn cyflenwi gwasanaethau amddiffyn, atal a chefnogi sy'n grymso goroeswyr (oedolion a phlant) a/neu'n mynd i'r afael ag ymddygiad troseddwyr, ond eu bod hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau'r wladwriaeth a chyda chymunedau i ddarparu eiriolaeth sefydliadol a gwella arfer yn y sector cyhoeddus, yn ogystal ag atal cam-drin rhag cychwyn a gwaethygu.
3. Bod gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cydweithio i gyflenwi'r ddarpariaeth graidd a amlinellir yng ngofynion Confensiwn Istanbul (Erthyglau 23-28), sef cymorth o fewn lloches, cymorth o fewn y gymuned, eiriolaeth a chwnsela annibynnol, yn ogystal â chymorth unigol ac mewn grŵp, a'u bod wedi'u cymhwyso o fewn y ddarpariaeth hon i gyflenwi cymorth pwrpasol i blant a phobl ifanc (gan gynnwys cymorth unigol, rhaglenni gwaith grŵp a therapi chwarae).
4. Bod gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhwyiol wedi'u lleoli'n lleol ac yn berthnasol i Gymru, gan gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn Saesneg, a'u bod yn medru ateb gofynion iaith a chymorth amlieithog defnyddwyr nad yw'r Gymraeg/Saesneg yn famiaith iddynt.
5. Bod gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu darparu gan staff a chanddynt wybodaeth fanwl am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn unol â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.
6. Bod gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnal y pwyslais hanfodol a roddir ganddynt ar gymorth i oroeswyr yn cael ei ddarparu gan ac ar gyfer menywod, a chan ac ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac yn cynnig cymorth lle mae cydraddoldeb rhywiol, diwylliannol, ethnig a ieithyddol yn greiddiol ar draws eu gwasanaethau.
7. Bod gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn osgoi gorfodi gwasanaethau ar oroeswyr ond yn hytrach eu bod yn gweithio ochr yn ochr â goroeswyr (oedolion, plant a phobl ifanc) er mwyn sicrhau y medrant wneud penderfyniadau gwybodus, a'u bod yn cynnwys goroeswyr yn y broses o ddatblygu, cyflenwi, rheoli ac adolygu.
8. Bod gwasanaethau arbenigol pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fedrus o ran adnabod anghenion a phrofiadau o fathau penodol o gam-drin, eu bod yn cynnig ystod o wasanaethau, eu bod yn medru cael mynediad at fenywod nad ydynt yn cydnabod efallai bod eu profiadau yn drais, a'u bod yn creu systemau cymorth hyblyg ac amrywiol sy'n sensitif i'r ffaith y gall lloches, cwnsela neu wasanaethau cymorth eraill fod yn anhyfarwydd a/neu'n waradwyddus i nifer o fenywod duon a lleiafrifoedd ethnig.

## 2. Y Tirlun Cyllido

Mae'n gwneud synnwyr busnes da i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau arbenigol y trydydd sector, a fydd yn eu cynorthwyo i barhau i gyflawni eu cenhadaeth, i ateb anghenion eu buddiolwyr a'u rhanddeiliaid, ac i ganolbwyntio ar waith ataliol o fewn cymunedau lleol. Er mwyn cynnal eu sefydlogrwydd a'u cynaliadwyedd ariannol, mae'n hanfodol bod gwasanaethau arbenigol yn ddigon gwydn a bod ganddynt y capasiti i amrywio'u hincwm a chael mynediad at gronfeydd newydd, sy'n sicrhau bod ystod o incwm mor eang â phosibl ar gael iddynt.[11]

**Crynodeb o'r cyllido o ymatebion blynyddol ein haelodau yn 2017/18**

- Cadarnahodd 41% o wasanaethau nad oeddent wedi'u cyllido'n llawr ar gyfer y flwyddyn i ddod (2018/19).
- Cadarnhaodd 36% o wasanaethau y byddant yn colli cyllid ar gyfer adran o waith a nododd 14% (3) bod eu cyllid yn aniscr ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nododd yr un ganran (36%) eu bod yn debygol o golli staff oherwydd toriadau cyllid.
- Nododd 90% o wasanaethau nad oeddent eto wedi profi toriadau cyllid ers Ebrill 2018.
- Cadrnhaodd 63% o wasanaethau fod rhai elfaennau o'u cyllid wedi'u sicrhau am gyfnod mwy na blwyddyn a disgwyliai 40% dderbyn cyllid ychwanegol yn 2019.
- Fodd bynnag, mae 36% o wasanaethau yn darparu cymorth heb gyllid penodol.

### Cyllido cynaliadwy: y cyd-destun

Bu'n flwyddyn heriol i'r sector yng Nghymru, ar adeg pan fo toriadau cyllid i'r sector cyhoeddus o ganlyniad i fesurau cyni, a phan fo diwygiadau lles yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a'r teuluoedd tlotaf, yn arbennig y rheini sy'n oroeswyr cam-drin (er enghraifft, mae taliadau budd-dal i gyfrif banc unigol yn gadael menywod yn agored i gam-drin economaidd pellach, ac fe gyflwynodd y wladwriaeth orfodaeth economaidd sy'n rheoli hawliau atgenhedlu menywod ac sy'n eu gorfodi i ddatgelu trais rhywiol trwy eu bygwth â dirwyon ariannol gyda'r terfyn Credyd Treth i ddau Blentyn).

Yn ateb i'r gwaethaf o'r mesurau cyni hyn, mae cyd-destun cyfriethiol a strategaethol clir ar gyfer cyllido gwasanaethau arbenigol yng Nghymru yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys deddfiad Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Strategaeth Genedlaethol 2016-2021[12] ac ymrwyiad canlyniadol i gyflenwi rhwymedigaethau Confensiwn Istanbul[13]. Cefnogir y rhain gan ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu gwasanaethau arbenigol i gyd-fynd â Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Pecyn Cymorth Comisynu Cydweithredol Sefydliad Banc Lloyds[14].

Yn benodol, mae'r Strategaeth yn pennu dyletswyddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a chomisiynwyr datganoledig er mwyn sicrhau darpariaeth ym mhob adran i atal, amddiffyn a darparu

[11] Byddai'r cronfeydd hyn yn cynnwys anrhegion/cyfraniadau gan unigolion a sefydliadau, gan gynnwys grantiau cymorth corfforaethol gan gyllidwyr dyngarol neu gyllidwyr eraill yn y sector cyhoeddus (wedi'u cyfyngu gan arfer gan amodau grant); cyllid a roddwyd trwy berthnasoedd cytundebol (wedi'i dalu'n aml ar sail canlyniadau neu fel ôl-daliad); incwm masnachu, marchnata a gwerthu gwasanaethau neu nwyddau.

[12] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf

[13] https://rm.coe.int/168046031c

[14] https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/VAWDASV%20Toolkit_Wales_web.pdf

cymorth i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Nid yw hyn yn golygu y dylai gwasanaethau cyhoeddus statudol ddarparu'r gwasanaethau hyn, ond yn hytrach eu bod yn comisiynu'r gwasanaethau hyn yn strategaethol ac yn gydweithredol er budd goroeswyr, i ymyrryd yn gynnar ac atal cam-drin pellach, ac i atal trais a cham-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf. Er gwaethaf y cyd-destun hwn, fodd bynnag, araf fu'r cynnydd o ran sicrhau cyllido cynaliadwy ar gyfer holl wasananethau arbenigol Cymru, ac roedd llawer o'n gweithgarwch eleni yn ymwneud ag ymgyrchu dros gadw ffynonellau ariannu'r sector cyhoeddus sy'n bodoli eioses. Ychydig o gynnydd a wnaed yn genedlaethol i wireddu ymrwymiad y Strategaeth i ariannu cynaliadwy hirdymor ar gyfer y sector arbenigol yng Nghymru, barn a gefnogir gan Swyddfa Archwilio Cymru, a nododd fod:

*"Trefniadau cyllido tymor-byr a diffyg cronni neu flaenoriaethu cronfeydd ar gyfer cymorth arbenigol yn her i weithredu'r Ddeddf."*[15]

Yn 2018, treialodd Llywodraeth Cymru y "Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi" (EIPS), a oedd, o 2019 ymlaen, yn bygwth integreiddio *Cefnogi Pobl* a grantiau sector cyhoeddus eraill yn ymwneud â thai o fewn ei derfynau. Fe wynewbyd gennym hefyd gynlluniau Llywodraeth y DU i newid y ffordd y cyllidwyd tai â chymorth, gan greu llawer o ansicrwydd, a byddai hyn wedi peryglu cau nifer o wasanaethau cymorth o fewn llochesau pe bai wedi mynd yn ei flaen.

Ymgyrchodd Cymorth i Ferched Cymru, mewn partneriaeth â mudiadau eraill yn y trydydd sector sy'n ymwneud â thai yng Nghymru, dros ddileu diwygiadau arfaethedig i gyllid llety â chymorth a thros gadw'r Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi arfaethedig yng Nghymru ar wahân i'r grantiau sy'n ymwnued â thai a digartrefedd.

Croesawom gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, yn hydref 2018, bod y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi i gynnwys, am y tro, ddwy raglen grant ar wahân: Grant Cymorth Tai newydd (a fydd yn cynnwys Cefnogi Pobl) a Grant Plant a Chymunedau (i gynnwys, ymhlith eraill, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf). Rydym hefyd yn falch bod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau bod budd-dal tai i'w gadw ar gyfer llety â chymorth mewn argyfwng. Mae'r ddau yn fuddugoliaethau hanfodol (er yn gyfyngedig) i'r sector trais yn erbyn menwyod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, ac mae angen i gomisiynwyr sicrhau yn awr y blaenoriaethir ac y rhoddir cyllid cynaliadwy i wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn y rhagelnni grant hyn.

Ar yr un pryd, rydym wedi dadlau trwy gydol y flwyddyn dros yr angen i ddyraniad Llywodraeth Cymru o'r Grant Trais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gadw ei derfyniadau clustnodi, a hynny gyda chefnogaeth egwyddorion comisiynu clir ar gyfer dyrannu yn genedlaethol ac yn lleol. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yng nghynigion eu cyllideb derfynol ar gyfer 2019 yn ddiweddar y byddai cyllid i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aros yn £5m am y flwyddyn.

Yn barod mae costau sylweddol i'r wladwriaeth o fynd i'r afael â thrias yn erbyn menwyod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Amcangyfrifir bod cam-drin domestig yn costio dros 66 biliwn yn Lloegr a Chymru.[16] Mae'r rhan fwyaf o'r gost yma'n gysylltiedig â'r niwed emosiynol a chorfforol a ddioddefir gan oroeswyr. Mae ffigurau Llywodraeth y DU yn amcangyfrirf bod pob achos o dreisio oedolyn yn costio dros £96,000 i gymdeithas o achos ei effaith emosiynol a chorfforol ar oroeswyr, yr allbwn economaidd a gollwyd o ganlyniad i gyfnod gwellhad, cosatu triniaeth i wasanaethau iechyd a

[15] http://www.audit.wales/system/files/publications/Call-For-Evidence-Women-2017-English.pdf

[16] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/772180/horr107.pdf

chostau'r system cyfiawnder troseddol gyda thrais rhywiol yn costio tua £8.5 biliwn i gymdeithas yn Lloegr a Chymru.[17]

Gwyddom i lefelau trais yn erbyn menywod a merched gynyddu rhwng 2010–2014 a does dim tystiolaeth gennym i ddangos bod hyn yn gostwng.[18] Bu'r sector yn dibynnu ar lefelau sylfaenol o gyllid am ddegawdau, a hwnnw'n cael ei ddyrannu flwyddyn ar y tro. Ni fu'r dyraniad cyllid tameidiog hwn yn ddigonol i dorri tir newydd wrth gyflawni ei fwriad o estyn cymorth i oroeswyr cam-drin.

Nid yn unig y gwrthodir goroeswyr gan wasanaethau arbenigol sy'n brin o adnoddau ac sydd wedi'u gorlwytho, ond hefyd ni fu dyraniad cyllid hyd yn hyn yn ddigon uchelgeisiol. Mae'n hanfodol i gyllidwyr weithio ar y cyd gyda gwasanaethau arbenigol a goroeswyr – canolfannau rhagoriaeth o fewn cymunedau lleol – er mwyn sicrhau na wrthodir unrhyw oroeswyr cam-drin pan fo angen cymorth arnynt gan wasanaethau arbenigol ac y cymerir camau arwyddocaol nid yn unig i ddelio â'r broblem ond hefyd i gynnig cymorth cynnar a mynd i'r afael ag atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Er mwyn gwireddu hyn, mae angen sector arbenigol a gyllidir yn gynaliadwy, wedi'i gymhwyso i ddarparu nid yn unig gymorth mewn argyfwng ond hefyd gymorth cynt a gwaith ataliol hirdymor.

Mae Cymru wedi ymrwymo eisoes i roi cyllid cynaliadwy i wasanaethau arbenigol. Dylai hyn olygu cylchredau cyllido o oleiaf 5 mlynedd gydag estyniad lle bo'n bosibl, i gyd-fynd o leiaf ag amserlenni a strategaethau'r llywodraeth. Disgwyliwn i hyn fod yn gyflin â buddsoddiad gan Lywodraeth San Steffan ac i uno adnoddau ar draws comisiynu cyfiawnder troseddol, iechyd (er enghraifft mae gan grant Cymru Iachach £10m i'w wario ar fesurau ataliol) a chomisiynu awdurdodau lleol trwy grantiau Plant a Chymunedau, grantiau Cymorth Tai, gofal cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, a ffynonellau ariannu addysg. Ochr yn ochr â chyllid cyhoeddus mae'n rhaid i ymddiriedolaethau a sefyliadau elusennol fuddsoddi mewn gwaith sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Pan gronnir cyllidebau, dylai'r rhain gael eu clustnodi ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau arbenigol. Disgwyliwn hefyd fod yna lefel o oruchwylio cenedlaethol yn y ffordd y dyrennir cyllid rhanbarthol a lleol, er mwyn sicrhau nad oes yna unrhyw ganlyniad anfwriadol oherwydd diffyg dealltwriaeth ar ran comisiynwyr o natur a buddion y rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau arbenigol yng Nghymru. Dylai dealltwriaeth gadarn o anghenion lleol lywio holl gomisiynu gwasanaethau arbenigol, boed hynny'n lleol neu'n rhanbarthol, ac mae angen i hyn ddarparu'r ystod ddigonol o wasanaethau cymorth – yn unol â gofynion sylfaenol – sydd eu hangen i wella canlyniadau i oroeswyr a throseddwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'n rhaid i fodelau cyllido cynaliadwy fuddsoddi'n fwy mewn adnabod yn gynnar ac atal, tra'n sicrhau bod ymatebion i argyfyngau yn parhau yn y tymor byr/canolig. Dylai comisiynwyr gadw cydbwysedd rhwng canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol gyda'r angen am gamau ataliol ac ymyriadau cynnar. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o gynnydd ac yn lleihau'r angen am ymyriadau costus yn yr hirdymor.

[17] Y Swyddfa Gartref (2005) 'Costau economaidd a chymdeithasol troseddau yn erbyn unigolion ac aelwydydd 2003/04', 2005. Addaswyd ffigurau'r adroddiad hwn i gyd-fynd â phrisiau 2009 yn ymateb y llywodareth i Adolygiad Stern (2011). Gweler https://www.sericc.org.uk/pdfs/5953_government-stern-review.pdf.

[18] S. Walby, J Towers and B. Francis, 'Is Violent Crime Increasing or Decreasing? a New Methodology to Measure Repeat Attacks Making Visible the Significance of Gender and Domestic Relations', The British Journal of Criminology, Cyfrol 56, Rhifyn 6, 1 Tachwedd 2016, Tudalennau 1203–1234, https://doi.org/10.1093/bjc/azv131

**Astudiaeth Achos: Cronni adnoddau i gomisiynu gwasanaethau arbenigol integredig – Adfer, Hysbysu, Diogelu, Grymuso, Caerdydd (*RISE, Cardiff*)**

Yng Nghaerdydd, bu arbenigwyr a chyflenwyr gwasanaeth cenedlaethol a lleol sy'n cefnogi menywod yn cyfrannu'n ystyrlon i drafodaethau'r sawl sy'n gwenud penderfyniadau yn lleol ac fe wrandawyd arnynt. Yn ogystal â hyn, cyfrannodd goroeswyr i'r broses o gynllunio manylebau'r gwasanaethau a chyfranogwyd ganddynt yn y broses o gomisynu. Canlyniad hyn oedd comisynu gwasanaethau arbenigol menywod yn unig ar gyfer menywod a phlant, ochr yn ochr â'r rhain comisiynir gwasanaethau ar wahân ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd a throseddwyr trais domestig a rhywiol.

Fe gydlynodd y tîm comisiynu gyda'r bwrdd iechyd lleol a'r comisiynwyr heddlu a throseddu gan gynnwys nifer o ffynonellau ariannu ar draws yr awdurdod lleol. Galluogodd y dull cydweithredol ac ymgynghorol hwn iddynt gomisiynu gwasanaethau i ateb gofynion menywod a phlant a effeithiwyd gan drais a cham-drin, gan gynnwys cymorth trais rhywiol arbenigol a chymorth i ateb gofynion goroeswyr duon a lleiafrifoedd ethnig.

Erbyn hyn mae gan y cyflenwyr llwyddiannus, sef gwasanaeth arbenigol sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mewn cydweithrediad â dau fudiad arall, gytundeb hirdymor i gyflenwi darpariaeth arbenigol gan ac ar gyfer menywod a chan ac ar gyfer menywod duon a lleiafrifoedd ethnig, ynghyd ag ymatebion pendodol i blant a phobl ifanc.

Sicrhaodd y comisiynwyr gynaliadwyedd y ddarpariaeth trwy gynnig cytundeb 5 mlynedd a 2, sy'n caniatáu i'r gwasanaethau gynllunio, datblygu ac thorri tir newydd er mwyn ateb anghenion goroeswyr.

## 3. Pryderon ynghylch y Dyfodol

Mae llawer o'n haelodau yn wasanaethau arbenigol bychain gyda nifer fach o staff pwrpasol ond sydd â phrofiad ac arbenigedd sylweddol o ran cynnig cymorth effeithiol i'r llu o oroeswyr sy'n camu dros eu rhiniog. Pryder mawr a nodwyd ganddynt yw hwnnw'n ymwneud â methu â derbyn cyllid o ganlyniad i'r ffaith ei fod yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr generig mwy o faint sydd â mwy o gapasiti ac amser i lunio ceisiadau am arian. Mae hyn yn effeithio ar gyflenwyr lleol profiadol sy'n wybodus am y cymunedau y maent yn gweithio oddi mewn iddynt. Yn ogystal â hyn, er bod y mwyafrif o gyflenwyr a ymatebodd yn cadarnhau nad ydynt wedi dioddef unrhyw gwtogi i'w cyllid ar hyn o bryd, gall hyn newid wrth i gyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf gael ei gyhoeddi. Heb hwn, ni all gwasanaethau gynllunio ymlaen, ond yn hytrach ânt o flwyddyn i flwyddyn.

Er bod gan 63% o'n haelodau gadarnhad o'u cyllid am gyfnod sy'n hwy na blwyddyn, mae'r cyllid hwn yn parhau i fod am lai na 3 blynedd fel arfer; nododd un bod eu cyllid am 18 mis yn unig, a hwnnw ar fin dod i ben ganol 2019. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau'n ansicr a fydd ganddynt gwarant o gyllid o ganol 2019 ymlaen, gan eu bod yn dal i aros am ganlyniadau'u ceisiadau. Yn ogystal â hyn, gosodwyd meysydd eraill o'r gwasanaeth ar dendr yn ystod 2018/19 – sy'n tystio i'r ansicrwydd a greir gan gylchredau cyllido tymor byr a sut mae'r rhain yn effeithio ar gynllunio gwasanaethau. Pwysleisiodd gwasanaeth arall bod cyllid grant ar gyfer prosiectau ychwanegol, ac eithiro cyllid craidd Cefnogi Pobl, fel arfer yn para am 3 blynedd. Dylai modelau cyllid fod yn rhai 5 mlynedd o leiaf gan fod diffyg cyllid cynaliadwy yn effeithio ar ddilyniant gwasanaethau ac ar eu gallu i arloesi a chadw staff. Nododd gwasanaethau sut y gall ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer swyddi arwain at weithwyr yn ceisio swyddi mwy diogel gan adael bwlch o ran arbenigedd.

Trwy 'Weithgor Cyllido' cenedlaethol rheolaidd Cymorth i Ferched Cymru, pwysleisiodd ein haelodau bwysigrwydd dileu'r ansicrwydd i'r sector arbenigol a ddaw o gyllido am flwyddyn ar y tro, ac felly roi sicrwydd i wasanaethau arbenigol trwy ymrwymo i gyllido mewn cylchredau o 5-7 mlynedd. Yn ei dro, bydd y cyllid hwn yn sicr o;

- Cynorthwyo gyda chadw staff, fel y pwysleisiwyd eisoes, gan fydd gan weithwyr ddioglewch swydd sicrach.
- Cynnig cyfleoedd i wasanaethau fod yn arloesol gyda'r cymorth a gynigir ganddynt, tra'n sicrhau y darperir ac y diogelir y gwaith craidd.
- Sicrhau, a hynny'n gwbl hanfodol, nad yw goroeswyr yn wynebu ansicrwydd ynghylch a fydd gwasanaethau'n parhau i weithredu a chynnig cymorth ai peidio.

Fodd bynnag, nid yw cyllido cynaliadwy yn unig yn ddigon. Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth o elusennau bychain, annibynnol barhau. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig gwerth diamheuol i gymunedau lleol, gan eu bod wedi'u gwreiddio yn eu hardaloedd lleol ac yn meddu ar wybodaeth bersonol am anghenion eu cymunedau. Mae elusennau bychain:

*"yn rhoi llais i'r rheini sy'n cael eu hanwybyddu'n rhy aml, yn cynnig atebion i rai o'n problemau anoddaf, yn adnabod ac ateb anghenion cymunedau ac yn codi'r darnau pan fo asiantaethau eraill yn methu. Mae angen y pŵer a'r gefnogaeth arnynt i gyflenwi'n effeithiol ond rhaid iddynt hefyd fod yn benseiri eu dyfodol hwy eu hunain."*[19]

Oherwydd eu maint gallant addasu yn ôl yr anghenion, gyda staff yn cyflawni sawl rôl, ond gall eu maint fod yn faen tramgwydd hefyd; fe'n hysbyswyd gan ein haelodau eu bod yn pryderu am doriadau i gyllidebau'r sector cyhoeddus ac am y bygythiad o golli o ganlyniad i gomisiynu cystadleuol a

[19] https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/Facing%20Forward%20-%202017%20Final.pdf

chystadlu yn erbyn darparwyr generig mwy o faint. Mae’n hollbwysig felly bod gwerth y sector arbenigol yn cael ei gydnabod a’i ddiogelu.

Mae’n rhaid i fodel Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido’n gynaliadwy wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gynnwys hyfywedd parhaus y gwasananethau hyn, er mwyn eu galluogi i sefydlu cynaliadwyedd i gyflewni gwasananethau i gymunedau yng Nghymru.

## 4. Tirlun Gwasanaethau Arbenigol 2017/18

### Cymorth o fewn lloches i oroeswyr cam-drin domestig a rhywiol

Yn ystod 2017/18, elwodd 2,505 o oroeswyr o gymorth o fewn lloches. Fodd bynnag, diffyg lle o fewn llochesau oedd y prif rheswm dros fethiant goroeswyr i dderbyn cymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda 190 menyw a 9 dyn yn methu â chael cymorth. Yn ogystal â hyn, methodd 200 o oroeswyr ag 'anghenion cymorth cymhleth' â chael cymorth gan wasanaethau, ffaith sydd eto'n dangos diffyg adnoddau, staffio a chyllid. Pryderwn hefyd fod hyn yn waeth oherwydd toriadau i wasanaethu cyhoeddus sy'n gweithio ym meysydd camddefnyddio sylweddau, cymorth anghenion iechyd meddwl ac anghenion digartrefedd a phryderwn am yr effaith bellach gaiff hyn ar wasnanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd eisoes wedi'u hymestyn i'r eithaf, gan fod y 'rhwydi' a gynlluniwyd i ddal pobl sydd ag anghenion ychwanegol a chymhleth yn lleihau. Methwyd â chefnogi 112 o fenywod oherwydd anghenion cymorth ychwanegol a method 94 arall dderbyn cymorth oherwydd bod y gwasanaeth wedi cyrraedd ei gapasiti o ran y nifer o oroeswyr ag anghenion cymhleth y gallent estyn cymorth iddynt.

O 2016/17 i 2017/18 dyblodd y nifer o oroeswyr a arhososdd mewn lloches am fwy na 6 mis o 58 i 102, gallai hyn fod yn arwydd o'r prinder tai gan awdurdodau lleol neu o restrau aros hirach neu o'r prinder mewn adnoddau tai yn gyffredinol, sy'n effiethio ar allu goroeswyr i symud ymlaen o'r llochesau. Yn ogystal â hyn, gallai effaith diwygiadau ar fforddiadwyedd tai i oroeswyr sydd am adael llochesau beri rhwystr i oroeswyr wrth geisio cael yr annibyniaeth y dymunant ei chael er mwyn byw bywyd heb gam-drin.

Yn ôl *Routes to Support*, (cronfa ddata ledled y DU sy'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau trais yn erbyn menywod a llefydd gwag cyfredol o fewn llochesau) 11 o wasnanaethau lloches yn unig sy'n gallu derbyn goroeswyr heb gymorth cyllid cyhoeddus[20]. Mae mynediad at leoedd o fewn llochesau i oroeswyr heb gymorth cyllid cyhoeddus yn gyfyngedig gan na allant hawlio'r mwyafrif o fudd-daliadau, gan gynnwys budd-dal tai, y mae llochesau'n dibynnu arnynt i dalu llawer o gostau. O ganlyniad, dim ond 15 o fenywod a dderbyniodd gymorth ar draws ein haelodaeth yn 2017/18.

Fel y crybwyllwyd eisoes, er bod y penderfyniad i beidio â gweithredu'r grantiau Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi wedi'i groesawu'n fawr ar draws y sector, pwysleisiodd aelodau eu pryderon parhaus ynghylch sefydlu'r Grant Cymorth Tai newydd (a fydd yn cynnwys Cefnogi Pobl). Ys dywed un:

"*rydym allan o'r dyfroedd o safbwynt y grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi ond rydym yn dal i wynebu toriadau i'r gronfa hon (Cefnogi Pobl) o gyllid sy'n ariannu cyfran health o asiantaethau arbenigol."*

Fe bwysleisiwyd ganddynt y dyrennir eu cyllid craidd yn flynyddol ar hyn o bryd (a hynnny ar fyr rybudd) ac yr argymhellir ei fod i'w gomisiynu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Hysbyswyd aelod arall yn lleol y gallai cyllid Cefnogi Pobl yn y Grant Cymorth Tai newydd gael ei gwtogi ar gyfer 2019/20. Mae hyn yn dilyn toriad blaenorol i gyllid sy'n golygu eu bod ar hyn o bryd yn darparu lloches 6 lle gyda chyllid ar gyfer 5 lle.

### Cymorth o fewn y Gymuned ar gyfer Cam-drin Domestig

Mae cymorth allgymorth cymunedol yn cynnwys gwasanaethau arbenigol ar gyfer goroeswyr o fewn y gymuned, megis cymorth galw heibio, gwaith grŵp, eiriolaeth, cwnsela a chymorth cymheiriaid.

---

[20] http://www.nrpfnetwork.org.uk/information/Pages/who-has-NRPF.aspx

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cofnodwyd 10,138 o atgyfeiriadau newydd, o'u cymharu â 7,678 yn 2016/17, mae hyn yn gynnydd o 32%. Gallwn briodoli'r cynnydd hwn mae'n debyg i'r ymwybyddiaeth gynyddol o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er enghraifft trwy hyfforddiant megis Gofyn a Gweithredu. Gall hefyd fod yn ganlyniad i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau ymyrraeth gynnar, naill ai oherwydd cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a goroeswyr yn sgíl ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, neu'r nifer o oroeswyr nad ydynt yn medru neu'n dymuno cael mynediad art gymorth o fewn lloches. Er gwaethaf y cynnydd mewn atgyfeiriadau, mae'r nifer a gefnogir wedi aros yn sefydlog, gallwn gasglu o hyn bod diffyg capasiti ac adnoddau o fewn gwasnanethau i gefnogi goroeswyr sy'n cel eu hatgyfeirio ac sydd angen mynediaid at gymorth. Felly nid yw cyllid wedi cynyddu i gwrdd â'r galw.

Er gwaetha'r cynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth o fewn y gymuned, mae'n debyg bod y gwir alw am wasanaethau o'r math yng Nghymru yn llawer uwch. Gall goroeswyr wynebu rhwystrau lu wrth geisio cael mynediad i gymorth. Mae goroeswyr wedi siarad â ni am yr angen am wasanaethau hygyrch i bob goroeswr ym mhob ardal[21], cynhwyswyd yr uchelgais i fynd i'r afael â hyn yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru[22] ond nid yw'r ymrwymiadau ariannol i wireddu hyn ym mhob ardal o Gymru yn cyfateb i'r uchelgais i'w wneud yn realiti. Gall daearyddiaeth (e.e. byw mewn ardaloedd gwledig) rwystro goroeswyr rhag ceisio cymorth neu gael mynediad at wasanaethau, a gall ddylanwadu ar y lefel o ymwybyddiaeth neu wybodaeth ynghylch cam-drin domestig a'r cymorth sydd ar gael. Mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, mae'r pellter i gyrraedd gwasanaethau cymorth o fewn y gymuned a phrinder trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystro goroeswyr rhag derbyn gwasnaeth.

### Gwasanaethau Trais Rhywiol

Mae'r gyfres o wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan wasananethau cymorth penodol ar gyfer argyfwng treisio / cam-drin rhywiol o fewn ein haelodaeth yn cynnwys Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, gwsanaethau cwnsela a gwaith cymorth grŵp, ynghyd â gwasanaeth cymorth o fewn llochesau ar gyfer goroeswyr cam-drin rhywiol. Mae'r gwasanaethau'n cynnig cymorth penodol ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc (0-17 oed) a effeithiwyd yn ddiweddar, neu gynt, gan drais a cham-drin rhywiol, yn ogystal â chymorth penodol i oroeswyr o fewn y diwydiant rhyw, a'r rheini o oroesodd gamfanteisio'n rhywiol a masnachu pobl.

Gwnaed cyfnaswm o 1008 o atgyferiadau at wasanaethau penodol ar gyfer trais rhywiol yn 2017/18. Roedd 1,106 o oroeswyr wedi ymwneud â nhw ac wedi derbyn cymorth ganddynt. Fodd bynnag, roedd 292 o oroeswyr trais rhywiol, sef 26% o'r atgyfeiriadau, yn aros am gymorth gan fod y galw'n fwy na'r capasiti.

Mae aelodau'n parhau i dynnu'n sylw at yr ansicrwydd a'r diffyg cyllid parhaus ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol; ar adeg ymateb i'n harolwg chwarterol, cadarnhaodd un aelod eu bod yn dal i aros am ganlyniad cronfa Argyfwng Treisio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2019 – sef prif ffynhonnell eu cyllid. Pwysleiswyd ganddynt y pryder ynghylch sut y comisiynir y gronfa yn y dyfodol ac a fydd y terfyniadau clustnodi yn parhau ar gyfer darparwyr trais rhywiol ac arbenigol.

Mae gwasanaethau trais rhywiol arbenigol yn pwyso'n drwm ar gyllid cyfiawnder troseddol heb ei ddatganoli, gyda chyllid cyfyngedig yn dod o ffynonellau cyllido iechyd, awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru. Mae hyn er gwaetha'r cymorth iechyd meddwl a therapiwtig penodol a ddarperir ganddynt i oroeswyr trais rhywiol.

[21] http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Are_you_listening_and_am_I_being_heard_FINAL_July_2016.pdf
[22] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf

Yn ogystal â hyn, er nad oedd yna unrhyw doriadau uniongyrchol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, nododd aelodau nad ydynt erioed wedi'u hariannu'n llwyr a'u bod yn ddibynnol ar ffynonellau incwm eraill y mae'n rhaid iddyn nhw eu creu. Canlyniad hyn yw bod timau bychain yn gweithio o dan bwysau o fewn y gwasanaethau arbenigol hyn ac yn treulio'u hamser yn chwilio a cheisio am gyllid yn hytrach nag yn canolbwyntio ar gynnig a gwella gwasanaethau i oroeswyr.

### Plant a Phobl Ifanc

Yng nghynigion cyllideb ddrafft ddiweddaraf Llywodraeth Cymru gwnaed sawl ymrwymiad i gyllido gwaith gyda phlant, yn arbennig mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gan gyfuno darpariaeth iechyd meddwl o fewn ysgolion gyda iechyd a lles pobl ifanc[23]. Er gwaethaf hyn, mae'r ddarparieth bresennol ar gyfer pobl ifanc a phlant sydd wedi'u heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i fod ar drugaredd loteri côd post. Rydym yn ymwybodol nad oes gan lawer o'n haelodau ddarpariaeth gyllido bwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc, nid o'r sector cyhoeddus nac o ymddiriedolaethau a sefydliadau chwaith. Ni dderbyniodd rhai gwasanaethau gyllid penodol erioed ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc tra bod eraill wedi colli'r cyllid hwn cyn 2018. Mae tystiolaeth yn parhau i ddangos bod cyllid yn anghyson ar gyfer y gwasanaeth hwn ar draws Cymru. Yn 2016 er enghraifft, nododd ein Hadroddiad am Gyflwr y Sector fod 46% o'n gwasanaethau wedi dioddef toriadau i'w cyllid ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn ddilynol, gwelodd gwasanaethau ostyngiad o 14% yn y cyllid gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn Gyntaf[24]. Ar hyn o bryd rydym yn mapio'r ddarpariaeth o weithwyr plant ar draws Cymru ac wedi darganfod anghysondeb o ran cyllido gwasanaethau. Arweiniodd yr anghysondeb hwn at fylchau sylweddol yn y ddarapariaeth.

Yn unigol, nododd aelodau fod y cyllid cyfyngedig a gânt ar hyn o bryd ar fin dod i ben yn dilyn un flwyddyn yn unig o ddarparu cyllid, pan fydd y broses dendro yn debygol o gael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau. Nododd un gwasanaeth:

*"rydym wedi ymdrechu bob blwyddyn i sicrhau cyllid i ddarparu gwasanaeth arbenigol i gefnogi plant a phobl ifanc ac er ein bod bob amser yn llwyddo i ddarparu'r gwasanaeth mae'n anodd ateb y galw gydag adnoddau cyfyngedig. Mae'n anodd hefyd i gynllunio ymlaen gan fod amserlenni mor fyr ynghlwm wrth y cyllido."*

Roedd bron hanner cyfanswm y goroeswyr a gefnogwyd â chymorth o fewn llochesau yn ystod 2017/18 yn blant. O'r 266 o blant mewn llochesau bob chwarter, roedd 17% ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Gwyddom na fyddai'r plant hyn i gyd wedi derbyn cymorth uniongyrchol tra eu bod o fewn lloches a hynny oherwydd diffyg gweithwyr arbenigol pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, p'un ai bod gwaith pwrpasol gyda phlant a phobl ifanc ai peidio, mae gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer y fam ddi-drais hefyd yn cefnogi'r plant, yn arbennig trwy gyfrwng cyllid ar gyfer gwaith 'teuluol'. O ran y Llinell Gymorth Rad ac am Ddim Byw Heb Ofn, rhoddwyd cymorth i rieni tua 3422 o blant ac I 29 o blant a phobl ifanc a gysylltodd yn uniongyrchol â'r llinell gymorth.

Nododd un gwasanaeth doriadau i gymorth ar gyfer plant a phobl ifanc, a arweiniodd at gynnydd yn y rhestrau aros disgwyliedig. O ganlyniad i fapio a chwmpasu'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc o fewn Cymru, gwelsom fod angen gwasanaethau mwy dwys, arbenigol a therapiwtig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef problemau iechyd meddwl o ganlyniad i drais yn erbyn menywod, cam-drin doestig a thrais rhywiol. Lle bo darpariaeth, mae'r ddarpariaeth honno'n gyfyngedig iawn o'i

[23] https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/draft-budget-2019-2020-detailed-proposals.pdf
[24] http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/WWA-State-of-the-Sector-2017-ENG.pdf

chymharu â’r boblogaeth. Parhawn yn hynod bryderus felly ynghylch yn anghysondeb o ran cyllido ar gyfer darpariaeth uniongyrchol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Ataliad ac ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn mynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a tharis rhywiol a’r effaith hirdymor, ddi-droi’n-ôl weithiau, ar blant. Fodd bynnag, mae diffyg ymrwymiad uniongyrchol o hyd i lenwi’r bwlch hwn yn y ddarpariaeth, er gwaethaf y nifer fawr o oroeswyr sy’n cael mynediad at wasnanethau gyda phlant.

## 5. Casgliad

Mae'n amlwg bod pryderon ynghylch cyllido'r sector yn parhau. Nid arweiniodd yr addewid am gyllid cynaliadwy at unrhyw gyhoeddiadau ffurfiol, er ein bod yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu hyn yn ogystal ag effaith modelau cyllido cystadleuol ar y sector – byddwn yn parhau i ymgyrchu dros hyn yn 2019. Yn ogystal â hyn, mae toriadau posibl i elfen gyllido Cefnogi Pobl o fewn y Grant Cymorth Tai newydd yn parhau i fod yn bryder difrifol i'n haelodau. Mae hyn yn gyllid craidd sy'n hanfodol ar gyer rhedeg gwasanaethau cymorth, yn arbennig llochesau, a phan fo cymaint o ddarparwyr eisoes ar eu colled gallai toriadau pellach fod yn drychinebus.

Pwysleisiodd aelodau eu pryderon ynghylch diffyg dealltwriaeth comisiynwyr o'r nodweddion arbennig sy'n gysyslltiedig â rhedeg gwasanaeth cymorth arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn benodol, pwysigrwydd dull sy'n ymateb i rywedd, sydd wedi'i lywio gan anghenion ac sy'n seiliedig ar gryfderau yn ogystal ag arbenigedd y gwasanaethau a ddarperir gan ac ar gyfer menywod, gwasanaethau gan ac ar gyfer menywod duon a lleiafrifoedd ehtnig, menywod LBT a menywod anabl. Yn ogystal â hyn, sefydlwyd a rheolwyd llawer o'r gwasanaethau a fu'n gweithredu ar draws Cymru am 40 mlynedd gan oroeswyr, sy'n cynnig arbenigedd a gwybodaeth hanfodol ar sail profiad i'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Yn olaf, mae'n bryder bod yr adroddiad hwn yn dangos yn glir y diffyg cysondeb o ran cyllid ar gyfer gwasanaethau pwrpasol i blant a phobl ifanc. Nid yw plant a phobl ifanc yn 'ddioddefwyr eilradd' cam-drin a rheolaeth gymhellol, ond yn hytrach maen nhw'n ei brofi eu hunain ochr yn ochr â'r rhiant di-drais. Os na fydd gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn medru (gyda chyllid ac adnoddau) estyn cymorth i blant er mwyn iddynt wella o'r trawma hwn, bydd y profiadau niwiedlol yn ystod plentyndod, y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i fynd i'r afael â nhw, yn parhau. Yn ogystal â hyn, os na fydd gan wasanaethau y capasiti i weithio tuag at atal trais a cham-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf, bydd gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol y dyfodol yn parhau i gynnig 'ateb tymor byr' heb fod ganndynt yr adnoddau i gynnig dull atal hirdymor.

## Argymhellion

1. Dylai cylchredau cyllido fod yn 5 mlynedd o leiaf gan gynnwys estyniadau lle bo'n bosibl.

2. Dylid clustnodi cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel y'u diffnnir, er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau arbenigol ar eu colled oherwydd 'darparwyr generig'.

3. Dylid sicrhau y cedwir elfen o gyllido cenedlaethol - sy'n diogelu darpariaeth a chyflenwad craidd, wedi'i gynnal gan adrannau ar draws Llywodraeth Cymru.

4. Dylid sicrhau cyllid penodol a ffynonellau ariannu amrywiol sy'n mynd i'r afael ag ystod lawn anghenion goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sy'n buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac ataliad ochr yn ochr â chymorth mewn argyfwng.

5. Dylid sicrhau y cefnogir cyllid gan arferion comisiynu cydweithredol, integredig da sy'n ffocysu ar ddarparu cymorth ar lefel ranbarthol a lleol a hwnnw wedi'i gysylltu â'r sector arbenigol ac wedi'i lywio gan oroeswyr. Dylai'r arferion hyn, yn eu tro, gydnabod y sefydlwyd a/neu reolwyd llawer o'r sector arbenigol gan oroeswyr neu bod aelodau timau staff a gwirfoddolwyr yn oroeswyr eu hunain.

6. Dylai comisiynwyr ar draws Cymru dderbyn hyfforddiant/gweithdai'n ymwneud â chanllawiau comisiynu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a tharis rhywiol, er mwyn iddynt ddeall anghenion goroeswyr a'r sector arbenigol. Dylai'r rhain gael eu rhedeg menw cydweithrediad â gwasanaethau arbenigol lleol.

7. Dylid sefydlu cronfa gendlaethol I ateb anghenion goroeswyr (neu wasanaethau) na allant droi at gyllid cyhoeddus, er mwyn iddynt gael mynediad cyfartal at amddiffyniad, diogelwch a chymorth.

8. Mae angen cydweithredu â chllid nda yw wedi'I ddatganoli, yn arbennig ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol sy'n ddibynnol iawn ar gyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn cynnal eu darpariaeth.

Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800


Welsh Women's Aid, Pendaragon House
Caxton Place, Pentwyn, Cardiff, CF23 8XE

02920 541 551

info@welshwomensaid.org.uk
gwybodaeth@llinellgymorthbywhebofon.cymru

@welshwomensaid

**www.welshwomensaid.org.uk**



Registered Charity Number: 1140962


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid